# PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 23 Mawrth 2016 am 9.00 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Stuart Davies, Peter Duffy a/ac Jason McLellan (Cadeirydd) a Mr Paul Whitham (Aelod Lleyg).

Roedd Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies, Hugh Evans, Bobby Feeley a/ac Julian Thompson Hillyn bresennol fel arsyllwyr.

## HEFYD YN BRESENNOL

Y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau (NS), Y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol AD a Gwasanaethau Democrataidd (GW), Y Pennaeth Archwilio Mewnol (IB), Y Pennaeth Gwella Busnes a Moderneiddio (AS), Y Prif Swyddog Cyllid (RW), Y Prif Gyfrifydd (SG), Y Rheolwr Cynllunio ac Adnoddau Addysg (IL), Y Rheolwr Cyllid Ysgolion (CJ), Arbenigwr Recriwtio (AM), Cynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru (AV, GB, MP, CO) a Gweinyddwr y Pwyllgor (CIW).

Gofynnodd y Cadeirydd am gael cyfleu cydymdeimlad y Pwyllgor i deuluoedd y Cynghorwyr Richard Davies a Peter Owen oedd, gwaetha'r modd, wedi marw.

## 1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Ann Davies a/ac Alice Jones.

## 2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni wnaeth unrhyw aelod ddatgan cysylltiad personol neu sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

## 3 MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater brys yn unol ag Adran 100B(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol, 1972.

## 4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 27ain Ionawr, 2016.

Cywirdeb:- Nodwyd fod yr Aelod Lleyg Mr Paul Whitham yn bresennol yn y cyfarfod.

Materion yn codi:-

5. Ysgol Mair, Rhyl – Cynllun Adfer Ariannol:- Hysbysodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd yr Aelodau ei fod wedi cysylltu â Swyddfa Addysg yr Esgobaeth i gael ymatebion i'r materion a'r pryderon a godwyd gan Aelodau'r Pwyllgor, a derbyniwyd yr ymatebion a ganlyn:-

- Nid oedd gan yr Esgobaeth dîm ymgynghori arbenigol i ddarparu cymorth a chyngor i ysgolion ar faterion ariannol, ac awgrymwyd y dylai ysgolion gysylltu â'r Esgobaeth yn uniongyrchol i drafod materion ariannol.

- O ran yr amserlen mewn perthynas â secondio aelod o staff o Ysgol Mair, ynghyd ag ysgolion Catholig eraill yn Sir Ddinbych a all fod yn profi problemau tebyg i'r rheiny yn Ysgol Mair, byddai'n cael ei hanfon ymlaen i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd yn y dyfodol. Cytunodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd i gylchredeg y wybodaeth i Aelodau'r Pwyllgor ar ôl ei derbyn gan Swyddfa Addysg yr Esgobaeth.

10. Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol – Mewn ymateb i gwestiwn gan Mr P. Whitham, eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd y cynhaliwyd Gweithdy i ystyried y Cyfansoddiad ym mis Mawrth 2016, a byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn nodi'r canlyniad.

***PENDERFYNWYD –*** *yn amodol ar yr uchod, fod y cofnodion yn cael eu derbyn a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.*

## 5 PROSES GYLLIDEB 2015/16

Roedd adroddiad gan y Prif Gyfrifydd, oedd yn rhoi diweddariad ar y broses i ddarparu'r gyllideb refeniw ar gyfer 2016/17, wedi ei gylchredeg ymlaen llaw.

Gyda chymorth y Prif Gyfrifydd, rhoddodd y Cynghorydd J. Thompson-Hill, grynodeb manwl o'r adroddiad. Eglurwyd bod yr adroddiad blaenorol ym mis Ionawr wedi crynhoi'r broses Rhyddid a Hyblygrwydd a lwyddodd i ddarparu cyllidebau cytbwys ar gyfer 2015/16 a 2016/17. Byddid yn parhau i lunio adroddiadau monitro perfformiad cyllideb misol i'r cabinet ac mae'r Grŵp Tasg a Gorffen Torri'r Brethyn ar waith i fonitro effaith penderfyniadau cyllidebol a gymerir fel rhan o'r broses.

Ar ôl derbyn y Setliad Terfynol ddechrau mis Mawrth roedd gwaith wedi dechrau ar ddiffinio proses newydd y gyllideb i gyflwyno cyllideb 2017/18. Sut bynnag, roedd y rhagdybiaethau a fyddai'n llywio manylion y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) a'r broses ei hun yn dal i gael eu datblygu. Roedd y Tybiaethau Allweddol oedd yn Llywio Datblygiad y CATC wedi eu cynnwys yn yr adroddiad, ynghyd ag Egwyddorion Proses Gyllideb 2017/18.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod amserlen ddrafft wedi cael ei datblygu a fyddai'n agored i newidiadau pellach (gweler Atodiad 1). Roedd yr amserlen yn ymhelaethu ar bedwar cam canlynol proses y gyllideb:-

1) Diffinio a datblygu'r broses

2) Nodi cynigion cychwynnol
3) Ymgynghori ar, a chwblhau, cynigion
4) Y camau cymeradwyo terfynol

Eglurodd y Prif Gyfrifydd fod yr amserlen, Atodiad 1, wedi newid gan y cyflwynwyd y ffurflenni i'r UDRh cyn y dyddiad oedd wedi ei drefnu, sef 7fed Ebrill, 2016. Amlinellwyd manylion y newidiadau ar gyfer yr Aelodau a phwysleisiwyd y byddai'r broses hon yn para am flwyddyn. Cadarnhawyd y byddai bob cam yn caniatáu ar gyfer ymgynghori ac ymgysylltu â'r rhanddeiliaid perthnasol. Byddai diweddariad pellach yn cael ei roi yn y cyfarfod nesaf, ac erbyn hynny byddwn wedi ymgynghori ar broses y gyllideb a'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig ac wedi eu cymeradwyo. Yn seiliedig ar dybiaethau presennol o ran pwysau ariannu a chost, rhagwelir y bydd bwlch o £4.4 miliwn yng nghyllideb 2017/18. Mae adroddiadau blaenorol wedi tynnu sylw manwl at y broses ymgynghori sylweddol a wnaed i gyflawni cyllidebau 2015/16 a 2016/17.

Roedd proses y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2017/18 wedi ei chrynhoi yn Atodiad1, ynghyd â manylion y broses ymgynghori a fabwysiadwyd. Eglurwyd ei bod yn debygol y byddai gostyngiadau cyllid i awdurdodau lleol yng Nghymru yn parhau yn y tymor canolig, ac er y bydd y Cyngor bob amser yn ymdrechu i fod yn fwy effeithlon er mwyn arbed arian, efallai na fydd hyn ynddo'i hun yn ddigonol yn y dyfodol. Bydd penderfyniadau ar y gyllideb yn mynd yn galetach ac mae'n debyg y bydd angen rhagor o amser i'w cyflawni.

Bydd proses y gyllideb arfaethedig ar gyfer 2017/18 yn helpu i gyflwyno cyllideb gytbwys a bydd yn galluogi'r Cyngor i ystyried rhagdybiaethau cyllid allweddol, pwysau gwasanaeth, lefelau arian parod wrth gefn a lefelau ffioedd a thaliadau yn y Cyngor.

Eglurodd y Cadeirydd ei fod yn falch bod yr effaith ar wasanaethau wedi cael ystyriaeth. Darparodd y Prif Swyddog Cyllid amlinelliad o sut y byddai'r effaith ar wasanaethau'n cael rhannu'n ddwy elfen gyda golwg ar gyflawni targedau effeithlonrwydd. Byddai'r rhain yn cael eu cynnig ac wedyn eu mabwysiadu gan y gwasanaethau priodol.

Pwysleisiodd y Cynghorydd S.A. Davies bwysigrwydd ymrwymo Aelodau ar gychwyn y broses, gyda sylw penodol i gyfraniad Aelodau yng Ngweithdai'r Gyllideb. Mynegodd bryderon am effaith penderfyniadau sy'n ymwneud â'r gyllideb ar y cyhoedd, ynghyd â chanlyniadau yn sgil y cynnydd cyflym yn niferoedd y disgyblion yn ysgolion Sir Ddinbych a'r cyfarwyddebau a dderbynnir mewn perthynas â'r lefelau arian parod wrth gefn a ddalir gan Gynghorau. Cyfeiriodd y Cadeirydd at brosesau gosod y gyllideb a phenderfyniadau a chymeradwyodd y barnau a fynegwyd gan y Cynghorydd Davies mewn perthynas â'r angen am fwy o ymrwymiad gan Aelodau ar gychwyn proses gosod y gyllideb. Amlinellodd y Cynghorydd J. Thompson-Hill anghysondeb yn y codau lliw yn Atodiad 1, ac eglurodd y dylai'r cyfeiriad at 23ain Mawrth, 2016 fod mewn melyn ac nid yn las.

Teimlodd y Cynghorydd H.H. Evans bod proses gosod y gyllideb a fabwysiadwyd gan Sir Ddinbych yr un mor dda ag unrhyw un yng Nghymru, ac amlygodd broblemau a brofwyd yn flaenorol o ran annog Aelodau i ymrwymo i'r broses.

Ystyriodd y Pwyllgor y barnau a fynegwyd gan y Pwyllgor mewn perthynas ag ymrwymo Aelodau ar gychwyn proses y gyllideb, ac awgrymwyd y dylid ystyried y mater yn sesiwn yr Uwch Dîm Rheoli ar 7fed Ebrill, 2016 ac yn Sesiwn Briffio'r Cyngor ar 6ed Mehefin 2016.

Ystyriodd y Pwyllgor y barnau a fynegwyd gan y Pwyllgor ynghylch ymrwymo Aelodau ar gychwyn proses y gyllideb, ac awgrymwyd y dylid ystyried y mater yng Nghyfarfod yr Arweinyddion Grwpiau ar 4ydd Ebrill, 2016 ac yn Sesiwn Briffio'r Cyngor ar 6ed Mehefin 2016.

Darparodd y Prif Swyddog Cyllid a'r Prif Gyfrifydd amlinelliad o'r amserlenni sy'n ymwneud â phroses y gyllideb a'r effaith o ran y rhaglen ar gyfer gwneud penderfyniadau gweithredol.

Eglurodd y Prif Swyddog Cyllid bod yr holl wybodaeth a gynhyrchwyd yn flaenorol ar gael yn llyfrgell yr Aelodau ac nad oedd yr egwyddorion wedi newid. Fodd bynnag, atgoffodd y Pwyllgor y byddai'r broses newydd yn dibynnu ar ganlyniad y Setliad Terfynol, a theimlodd efallai bod y targed arbedion yn uwch nag oedd ei angen.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, cytunodd y Cynghorydd H.H. Evans i godi'r mater yng nghyfarfod yr Arweinyddion Grwpiau ar 4ydd Ebrill. Cadarnhaodd y Cynghorydd J. Thompson-Hill y byddai'n mynychu'r cyfarfod i ddarparu trosolwg ac i adrodd yn ôl i Aelodau.

***PENDERFYNWYD*** *– yn unol â'r cynigion uchod, bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad.*
***(RW, SG, Cynghorwyr HHE a JTH i Weithredu)***

**6 DIWEDDARIAD AR DDIOGELU CORFFORAETHOL**

**Adroddiadau AGGCC:-**

Cyn ystyried yr Adroddiad Diogelu Corfforaethol, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau mai'r weithdrefn a gytunwyd oedd i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol dderbyn ac ystyried adroddiadau allanol. Eglurodd, oherwydd y cyfyngiadau o ran amser ac amserlennu cyfarfodydd, y bu rhaid cyflwyno adroddiad Gwerthusiad Perfformiad Blynyddol 2014/15 i gyfarfod ffurfiol o'r Cyngor i'w dderbyn erbyn dyddiad penodol. Bwriadwyd hefyd y byddai'r Rheolwr Ardal yn cyflwyno'r adroddiad cyn gadael ei swydd, sut bynnag, ni fu modd iddo fynychu cyfarfod y Pwyllgor Archwilio priodol.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau y cyflwynwyd yr adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad ar 10fed Rhagfyr, 2015, ac y bu'n destun trafodaeth drylwyr a heriol. Eglurodd bod Adroddiad yr AGGCC wedi ystyried Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau Cymdeithasol, fyddai'n cael ei gyflwyno hefyd i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod yr adroddiad wedi ei archwilio'n drylwyr, a chadarnhawyd y byddai Adroddiadau AGGCC yn y dyfodol yn cael eu cyflwyno i'r

Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol mewn fformat newydd. Cytunodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau  y byddai'r fformat newydd sydd i'w fabwysiadu gan yr AGGCC yn cael ei gyfleu i'r Cadeirydd, a'i gyflwyno i'r Grŵp Cadeiryddion Archwilio a'r Is Gadeiryddion.

Cadarnhaodd y Cadeirydd bod cofnodion y Pwyllgor Archwilio Perfformiad wedi eu cylchredeg i Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, a chytunodd yr Aelodau y bu Adroddiad yr AGGCC yn destun trafodaeth drylwyr a heriol.

**Yr Adroddiad Diogelu Corfforaethol:-**

Roedd adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol, a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd wrth weithredu'r Cynllun Gweithredu sy'n cyd-fynd â'r adroddiad Archwilio Mewnol ar Ddiogelu Corfforaethol ym mis Awst 2015, wedi ei gylchredeg ymlaen llaw.

Roedd yr adroddiad hwn yn darparu gwybodaeth ar sut mae'r Cyngor yn gweithredu gwelliannau mewn diogelu corfforaethol ers cyhoeddi adroddiad Archwilio Mewnol yn 2015. Roedd yr adroddiad archwilio wedi rhoi 'Sicrwydd Isel', felly roedd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi gofyn am adroddiad cynnydd i sicrhau bod y materion a amlygwyd yn derbyn sylw.

Roedd yr adroddiad dilynol i'r Archwiliad Mewnol, Atodiad 1, yn dangos bod cynnydd da wedi ei wneud wrth weithredu'r cynllun gweithredu. Roedd llywodraethu wedi ei wella ac mae gan y Panel Diogelu raglen waith fwy penodol fel y gellir blaenoriaethu ei waith a monitro perfformiad. Cadarnhawyd bod mwy o adnoddau pwrpasol yn cael eu defnyddio ar gyfer diogelu corfforaethol trwy gael Cadeirydd y Panel i gynyddu ei gyfraniad, gan gynnwys cyfarfodydd gyda chynrychiolwyr y Panel Gwasanaeth.

Roedd rhywfaint o waith yn dal i'w wneud i sicrhau bod aelodau o staff ac Aelodau Etholedig yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran diogelu corfforaethol, gan gynnwys ymgyrch hybu i lansio'r Polisi Diogelu Corfforaethol newydd. Yn ogystal, mae angen datblygu a rhoi ar waith y modiwl hyfforddiant corfforaethol a gynlluniwyd ac mae angen i bob Aelod Etholedig fynychu'r sesiynau hyfforddi diogelu corfforaethol gorfodol. O ystyried y cynnydd a wnaed gyda'r Cynllun Gweithredu, rydym wedi gwella ein graddfa sicrwydd i 'Canolig'.

Mynegodd y Cadeirydd y farn nad oedd y bwriad cychwynnol y byddai Diogelu Corfforaethol yn cael ei weithredu ar draws y Sir wedi ei weithredu'n llawn. Sut bynnag, roedd yn cydnabod, er bod sawl un o'r materion yn y Cynllun Gweithredu wedi cael sylw, bod materion yn dal i fod heb eu datrys. Eglurodd y Cynghorydd H.H. Evans bod Aelodau a swyddogion yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran Diogelu. Eglurodd y bu Cadeirydd y Panel yn gadarn o ran ei fwriadau o ran hyrwyddo cyflawni'r agenda Diogelu Corfforaethol, gyda'r lefel o drafod a herio wedi cynyddu. Rhoddodd y Cadeirydd wybod i'r Pwyllgor mai ei fwriad oedd mynychu cyfarfod nesaf y Panel fel arsyllwr.

Mynegodd Mr P. Whitham bryder bod amserlenni sy'n ymwneud â'r adroddiadau dilynol wedi llithro, gyda chyfeiriad arbennig at yr agweddau o ran hyrwyddo a

hyfforddiant. Roedd y Pwyllgor yn cefnogi awgrym Mr Whitham y dylid cyflwyno adroddiad cynnydd pellach i'r Pwyllgor ym mis Medi 2016.

Roedd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau yn cydnabod nad oedd rhai o'r terfynau amser wedi eu cyflawni. Sut bynnag, eglurodd y byddai'r broses yn parhau gyda rhai agweddau'n mynd yn eu blaenau'n barhaol.  Un o'r prif agweddau oedd codi ymwybyddiaeth ar draws y Cyngor. Byddai eitem busnes yn cael ei gyflwyno eto i gyfarfod Briffio'r Cyngor ym Mehefin 2016 o ran Diogelu Corfforaethol a byddai'r Aelodau'n cael eu hannog i fod yn bresennol.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD*** *– bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol:-*

*(a)  yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad.*
*(b)  yn cytuno y byddai adroddiad cynnydd yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi 2016, ac*
*(c)  yn gofyn am annog Aelodau i fynychu cyfarfod Briffio'r Cyngor i ystyried yr eitem ar Ddiogelu Corfforaethol.*
***(NS, IB i weithredu)***

## 7 GWYDNWCH ARIANNOL CYNGHORAU YNG NGHYMRU – Y WYBODAETH DDIWEDDARAF

Roedd adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid wedi ei gylchredeg ymlaen llaw.

Rhoddwyd gwybod i'r aelodau bod Swyddfa Archwilio Cymru wedi cwblhau asesiad o 'gydnerthedd ariannol' y Cyngor yn dilyn astudiaeth genedlaethol a gyhoeddwyd yn 2015. Roedd yr adroddiad gan Archwilydd Cyffredinol Cymru o dan y teitl 'Asesiad Gwydnwch Ariannol Cyngor Sir Ddinbych' wedi ei gynnwys fel Atodiad i'r adroddiad.

Cwblhawyd yr asesiad yn ystod y cyfnod Mai i Hydref 2015, ac roedd yn dilyn i fyny materion a amlygwyd yn y gwaith ar sefyllfa ariannol 2014-15. Roedd ffocws y gwaith ar gyflwyno cynlluniau arbedion 2014-15, a'r cyfnod cynllunio ariannol 2015-16. Daeth yr adroddiad i'r casgliad bod gan y Cyngor drefniadau rheoli ariannol priodol ar waith.

Eglurodd y Prif Swyddog Cyllid bod yr adroddiad yn rhoi asesiad cadarnhaol o drefniadau ariannol y Cyngor. Roedd polisi'r Cyngor ar ffioedd a thaliadau wedi ei nodi yn y Rheoliadau Ariannol ac mae wedi ei gynnwys mewn rowndiau cyllideb blynyddol. Teimlwyd y byddai hyn yn cael ei wella fel rhan o broses 2017/18 a byddai cofrestrau adrannol yn cael eu cynnal.
Roedd Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru (GB) wedi canolbwyntio ar un argymhelliad sef sefydlu polisi ffurfiol ar gynhyrchu incwm a chodi ffioedd ynghyd â chofresr o ffioedd a nodwyd gan adrannau, a byddai hyn yn cael sylw ym mhroses cyllidebu 2017/18. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau nad oedd gan Sir Ddinbych ymagwedd gorfforaethol tuag at gynhyrchu incwm, a theimlwyd y gall fod yn fanteisiol i Aelodau gael trafodaeth wleidyddol am y mater hwn, a chyfeiriwyd at yr ymagwedd sydd wedi ei mabwysiadu gan Gynghorau eraill. Cyfeiriodd

Cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru (AV) at y cyfyngiadau sydd wedi eu gorfodi ar Gynghorau yn nhermau cynhyrchu incwm a chyfeiriodd at y croes-gymhorthdal ar gyfer gwasanaethau. Amlygodd bwysigrwydd sicrhau cael gafael strategol ar y ffynhonnell incwm i'r Awdurdod ynghyd â'r hyblygrwydd sydd ar gael yn nhermau ei dosbarthu.

Eglurodd y Prif Swyddog Cyllid bod polisi ffurfiol y Cyngor o ran penderfyniadau yng nghyswllt adolygu ffioedd a thaliadau wedi eu datganoli i'r Penaethiaid Gwasanaeth priodol, a fyddai'n mynd ag unrhyw newidiadau arfaethedig drwy'r broses gyllidebu briodol. Cyfeiriodd y Prif Swyddog Cyllid at y terfynau a orfodwyd o ran y prif feysydd codi tâl.

Mewn ymateb i awgrymiadau gan Aelodau'r Pwyllgor o ran yr angen am bolisi trosfwaol ar gyfer cynhyrchu incwm, teimlodd y Cynghorydd J. Thompson-Hill bod angen hyblygrwydd. Amlinellodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd natur gymhleth y broses o osod ffioedd a thaliadau, ac amlygodd yr angen i ystyried effaith unrhyw benderfyniadau a wnaed ar fusnesau lleol a'r gymuned yn gyffredinol. Eglurodd y byddai'n bwysig cydymffurfio â gofynion a chyfyngiadau deddfwriaethol, ynghyd â'r angen i gyfiawnhau, mewn rhai amgylchiadau, mai dim ond costau oedd yn cael eu hadfer.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, eglurodd y Cadeirydd y byddai trafodaeth y Pwyllgor yn cael ei chynnwys yn y trafodaethau ynglŷn â'r gyllideb.

***PENDERFYNWYD*** *– bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn yr adroddiad ac yn nodi'r argymhelliad gan Swyddfa Archwilio Cymru.*

**8 RHEOLI RISG DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL**

Roedd adroddiad gan y Pennaeth Busnes, Cynllunio a Pherfformiad, oedd yn egluro'r newidiadau a fynnir yn y modd y mae'r Cyngor yn rheoli risg o ran Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, wedi ei gylchredeg ymlaen llaw.

Darparodd y Pennaeth Busnes, Cynllunio a Pherfformiad grynodeb manwl o'r adroddiad. Eglurodd er mwyn cydymffurfio â'r Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol mae angen i'r Cyngor adolygu'r ffordd y mae'n rheoli risg, ac roedd yr adroddiad yn archwilio rhai o'r materion mae'r newid hwn yn eu codi ar gyfer y Cyngor, ac yn ystyried ei effaith bosibl ar y Gofrestr Risg Gorfforaethol.

Roedd Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnwys newidiadau pellgyrhaeddol i'r ffordd y mae'n ofynnol i'r Cyngor gynnal ei fusnes, a byddai angen iddo yn y dyfodol ddangos sut y mae'n cyfrannu at y saith nod trwy gyhoeddi amcanion Lles blynyddol. Yn fwy sylfaenol fyddai'r disgwyliad y byddai'r Cyngor yn newid y ffordd y mae'n gwneud penderfyniadau trwy gymryd i ystyriaeth y pum Egwyddor Datblygu Cynaliadwy: Hirdymor, Atal, Integreiddio, Cydweithredu, Cynnwys.

Rhoddodd y Pennaeth Busnes, Cynllunio a Pherfformiad grynodeb o bob un o'r pum Egwyddor Datblygu Cynaliadwy a gynhwyswyd yn yr adroddiad. Cyfeiriwyd at yr her o ran rheoli risg, gyda risgiau'n cael eu rhannu'n rhai 'gweithredol' tymor byr

a rhai ‘strategol’ hirdymor. Roedd manylion yn ymwneud â rheoli risgiau penodol, ynghyd â’r camau lliniarol a’r opsiynau a weithredwyd i liniaru’r risgiau cymhleth, wedi eu hamlinellu yn yr adroddiad.

Rhoddwyd cadarnhad gan y Pennaeth Busnes, Cynllunio a Pherfformiad bod y Cyngor yn hyderus bod eu proses risg weithredol gyfredol yn addas i’r diben. Sut bynnag, y dasg fwy fyddai dechrau datblygu’r offerynnau a’r technegau a fyddai’n helpu i fodelu'r broses yn y dyfodol yn well.

Roedd y Cyngor yn gweithio gydag Awdurdodau partner i ddatblygu dull o asesu effaith, ac roeddynt hefyd yn treialu gwaith gwydnwch yn y gymuned y bwriedir iddo hybu meddwl hirdymor ac ymgysylltiad adeiladol mewn perthynas â phroblemau a rennir. Rhoddwyd gwybod i’r Aelodau y byddai gwaith pellach yn cael ei ddatblygu wrth ddechrau defnyddio'r pum Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.

Mynegwyd pryder gan y Cynghorydd S.A. Davies bod y Ddeddf wedi ei gweithredu a’i phenderfynu gan Lywodraeth Cymru. Cwestiynodd ei ffiniau, ei dulliau a lefel yr ymgysylltiad â’r cyhoedd ynghyd â’r disgwyliadau o’r Ddeddf. Eglurodd y Pennaeth Busnes, Cynllunio a Pherfformiad bod sawl agwedd a gofynion y Ddeddf yn cael sylw gan y Cyngor ar hyn o bryd, a bod Aelodau Etholedig eisoes yn ymgysylltu â’r gymuned leol a’r cyhoedd yn gyffredinol. Cyfeiriodd at bwysigrwydd archwilio dulliau o gryfhau’r gymuned, ynghyd ag archwilio ymagweddau eraill o ran gwneud penderfyniadau, gyda golwg ar sicrhau lefel o welliant ar gyfer cenedlaethau i’r dyfodol.

Eglurodd y Cynghorydd H.H. Evans ei bod yn anochel y byddai’r Ddeddf yn cael ei chyflwyno ac y byddai’n bwysig canfod lefel y pwyslais y dylid ei roi ar ei datblygu. Cyfeiriodd at sawl maes y byddid yn cael eu dylanwadu gan y Ddeddf, gyda chyfeiriad penodol at Addysg a Diogelu, ac amlygodd yr angen i wneud y gorau o’r agweddau cadarnhaol sydd wedi eu hymgorffori yn y Ddeddf. Mynegodd y farn na fyddai ymgysylltu’n tanseilio rôl Aelodau ac mai Cynllun Corfforaethol y Cyngor fyddai’r dylanwad fyddai’n gyrru pethau yn eu blaenau ar gyfer yr Awdurdod, gan ystyried egwyddorion arweiniol y nodau o fewn y Ddeddf.

Cytunodd y Cadeirydd â’r barnau a fynegwyd gan gynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru o ran yr angen i edrych ar y darlun ehangach a’r angen am newid meddylfryd, wrth beidio â chael ein gyrru gan fiwrocratiaeth. Mewn ymateb i gwestiwn gany Pwyllgor, eglurwyd, os oedd y Cyngor yn anwybyddu neu’n methu â mynd i’r afael â gofynion y Ddeddf, yna gallant fod yn agored i’w herio yn y dyfodol. Eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd bod y Ddeddf yn cyfeirio at weithredu neu gymryd camau rhesymol, ac os ystyriwyd bod camau gweithredu cyfiawn wedi eu cymryd, yna ni fyddai achos i weithredu.

Roedd y Cynghorydd P.C. Duffy wedi amlygu pwysigrwydd cynllunio ymlaen er budd cenedlaethau’r dyfodol, ynghyd ag asesu unrhyw risgiau cysylltiedig, a mynegodd y farn y gallai cyflwyno rhagor o astudiaethau peilot fod yn fanteisiol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd H.H. Evans at y buddion posibl y gellid eu cyflawni drwy fonitro gweithredu gan gyrff a sefydliadau eraill ynghyd ag asesu lefel yr ymrwymiad. Awgrymodd y dylid defnyddio’r Ddeddf fel cyfrwng i wella darpariaeth

gwasanaeth gydag adnoddau cyfyngedig, ac y dylid ymgorffori'r Ddeddf o fewn y broses benderfynu.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, cyfeiriwyd at dreialu gwaith o ran gwydnwch yn y gymuned gyda'r bwriad o feddwl am broblemau a rennir o safbwynt hirdymor ynghyd â mynd ati i ymgysylltu mewn modd adeiladol (People to People yn Llangollen). Eglurwyd yr ymgymerwyd â'r cynllun yn Llangollen a bu'r ymateb yn gadarnhaol iawn. Mewn ymateb i gais i swyddogion, cytunwyd y dylid cyfleu canlyniad y prosiect i'r Cadeirydd ac yna ei anfon ymlaen i Aelodau'r Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD*** *– derbyn a nodi'r adroddiad.*
***(AS i Weithredu)***

**9 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL**

Darparodd y Cadeirydd adroddiad llafar ar Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Eglurodd bod Cylch Gorchwyl y Pwyllgor wedi ei ddiffinio yng Nghyfansoddiad y Cyngor, a bod ganddo'r rôl o sicrhau bod gan Sir Ddinbych fframwaith llywodraethu cadarn oedd yn addas i'r diben.

Roedd manylion y meysydd gwaith a ganlyn, yr ymgymerwyd â hwy gan y Pwyllgor yn ystod y deuddeng mis diwethaf, yn cynnwys:-

Prif Feysydd:-

- Rôl archwilio oedd yn cynnwys craffu ar adroddiadau archwilio mewnol, ystyried canfyddiadau adroddiadau archwilio allanol ynghyd â derbyn a chymryd trosolwg o adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru.
- Rheoli Risg Corfforaethol, canfod ac adolygu risgiau a sicrhau bod System Rheoli Risg yr Awdurdod ynghyd â'i Strategaeth Rheoli Gwybodaeth yn gadarn.
- Rôl Ariannol oedd yn cynnwys goruchwylio Rheolaeth Gyllidol y Cyngor, Proses y Gyllideb, Datganiad y Cyfrifon, Rheoli'r Trysorlys a Dangosyddion Darbodus.
- Rheoli Gwybodaeth a materion o ran Diogelu Data.
- Newidiadau i'r Cyfansoddiad a'r rhaglen Gaffael.
- Datganiadau Llywodraethu Blynyddol a Chwynion ac adborth.

Meysydd Gwaith eraill:-

- Monitro gwasanaethau cyhoeddus a ariennir gan y Cyngor.
- Taliad Ariannol i Rai Sy'n Gadael Gofal.
- Adroddiad Gwella Blynyddol a'r goblygiadau i Bolisi Tai y Cyngor.
- Diwygio'r Llywodraeth a materion o ran Llesiant.
- Materion Diogelu Corfforaethol.
- Datganiad y Cyfrifon a'r Adroddiad Archwilio a gyflwynir gyda lefel uchel o sicrwydd.
- Derbyn Adroddiad Rheoli'r Trysorlys, trosolwg o fuddsoddiad a gweithgaredd.
- Negydu strategaeth ymadael y PFI mewn perthynas â Neuadd y Sir, Rhuthun.

- Y cyfansoddiad a gwaith parhaus mewn perthynas â’r Cynllun Dirprwyo.
- Ymgynghoriad y Llywodraeth ar Geisiadau Rhyddid Gwybodaeth.
- Diweddaru’r codau a’r protocol o ran cysylltiadau rhwng Aelodau a swyddogion.
- Goruchwylio materion Diogelu a nodi tueddiadau.
- Cyllid ysgolion a chefnogaeth i Gyrff Llywodraethu Ysgolion.
- Effaith y Pwyllgor Addysg a Gwasanaethau Plant.
- Cynorthwyo i sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei Flaenoriaethau Corfforaethol.
- Darparu trosolwg o amryw bolisiau’r Cyngor fel y Polisiau Rhannu Pryderon a Thwyll a Llygredd.
- Ymateb i adroddiadau yn y cyfryngau a mynd i’r afael â hwy.
- Mynd i’r afael ag amryw faterion penodol fel y maent yn codi.
- Gwaith yn ymwneud ag amddiffynfeydd arfordirol.

Diolchodd y Cadeirydd i’r Tîm Archwilio Mewnol a Swyddogion Swyddfa Archwilio Cymru am y gwaith a wnaed ganddynt a’r cymorth a ddarparwyd i’r Pwyllgor. Yn ogystal, darparodd gadarnhad y byddai Adroddiad Blynyddol ysgrifenedig ar gyfer y Pwyllgor Llywodraethu Corfforoaethol yn cael ei cyflwyno i gyfarfod y Cyngor Sir ym Mai 2016.

***PENDERFYNWYD*** *– bod:-*

*(a) Y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn ac yn nodi Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, ynghyd ag*
*(b) adroddiad a oedd yn manylu ynghylch y gwaith a wnaed gan y Pwyllgor yn cael ei gyflwyno i’r Cyngor Sir ym Mai 2016.*

***(JM (Cadeirydd) i Weithredu)***

## 10 ADRODDIAD DIWEDDARU RHEOLI’R FFLYD GORFFORAETHOL

Roedd adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol, oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd wrth weithredu'r cynllun gweithredu sy'n cyd-fynd â'r Adroddiad Archwilio Mewnol ar Reoli’r Fflyd Gorfforaethol ym mis Hydref 2015, wedi ei gylchredeg ymlaen llaw.

Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol yr adroddiad oedd yn darparu gwybodaeth am sut mae'r Cyngor yn gweithredu gwelliannau o ran rheoli’r fflyd ers cyhoeddi'r adroddiad Archwilio Mewnol yn 2015. Mewn ymateb i’r ffaith fod yr Adroddiad Archwilio Mewnol wedi rhoi ‘Sicrwydd Isel’, roedd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol wedi gofyn am adroddiad cynnydd i sicrhau bod y materion yn cael sylw.

Roedd cynllun gweithredu dilynol Archwilio Mewnol, Atodiad 1, yn dangos bod cynnydd da yn cael ei wneud gyda gweithredu'r materion a’r risgiau a nodwyd gan Archwilio Mewnol. Gan mai dim ond archwiliad dilynol interim oedd hwn, byddid yn parhau i fonitro cynnydd a byddid yn cyhoeddi adroddiad dilynol ffurfiol gyda sgôr sicrwydd newydd.

Er bod rhai camau gweithredu sy'n weddill yn dal i fod, mae’r prif faterion eisoes wedi cael sylw, megis datblygu Polisi Cludiant newydd y mae angen ei gymeradwyo a'i gyhoeddi bellach. Mae materion iechyd a diogelwch hefyd wedi cael sylw trwy wella gweithdrefnau sefydlu, adolygu adrodd am ddigwyddiadau a gwella prosesau trwyddedau gyrwyr.

Cyfeiriodd Mr P. Whitham at gynnydd o ran y meysydd a amlygwyd fel rhai oren a melyn, a gofynnodd am gael cyflwyno adroddiad cynnydd i’r Pwyllgor ym mis Medi 2016. Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan Mr Whitham mewn perthynas â datgan unrhyw salwch nau anomaleddau o ran trwyddedau gyrru, eglurodd y Pennaeth Archwilio Mewnol bod y meysydd hyn wedi eu cynnwys a’u datrys yn dilyn llunio Ffurflenni Apwyntiad newydd.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd mewn perthynas â defnyddio ffonau symudol gan weithwyr wrth yrru, eglurodd y Pennaeth Archwilio Mewnol bod hyn yn groes i’r gyfraith ac y gallai fod yn fater disgyblu.

***PENDERFYNWYD** – bod:-*

*(a) yr adroddiad yn cael ei dderbyn a bod y sefyllfa’n cael ei nodi, a*
*(b) bydd adroddiad cynnydd pellach yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi 2016.*
***(IB i Weithredu)***

## 11 RHEOLAETH ARIANNOL YSGOLION - Y WYBODAETH DDIWEDDARAF

Darparwyd adroddiad llafar ar drefniadau rheolaeth ariannol ysgolion gan y Pennaeth Archwilio Mewnol, y Rheolwr Cynllunio ac Adnoddau Addysg a’r Rheolwr Cyllid Ysgolion.

Cyfeiriodd y Pennaeth Archwilio Mewnol at drafodaethau yn y cyfarfod blaenorol mewn perthynas â’r Cynllun Adfer Ariannol ar gyfer Ysgol Mair, Rhyl, ynghyd â phryderon a chwestiynau a godwyd gan Aelodau mewn perthynas â threfniadau a phrosesau Rheolaeth Ariannol Ysgolion, a rôl Rheolwyr Busnes a Chyllid Ysgolion. Mynegodd y Cadeirydd bryder nad oedd ysgolion oedd wedi profi anawsterau ariannol wedi cael Ymgynghorydd Ariannol ar gyfer Ysgolion, a cheisiwyd eglurhad ynghylch y ddarpariaeth o gyngor ac arweiniad ariannol sydd ar gael i ysgolion ynghyd â manylion y prosesau sydd yn eu lle i ddarparu cymorth.

Amlinellodd y Rheolwr Cynllunio ac Adnoddau Addysg y broses mewn ysgolion clwstwr, yr oedd ganaddynt Reolwr Busnes a Chyllid ym mhob un o’r Ysgolion Uwchradd sydd wedyn yn darparu cymorth i’w hysgolion bwydo priodol. Cyfeiriodd at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ac eglurodd yr ystyriwyd bod y broses a fabwysiadwyd yn Sir Ddinbych yn enghraifft dda, a’i bod yn cael ei gweld fel model ar gyfer Cymru yn nhermau y gweithdrefnau a’r prosesau a fabwysiadwyd. Cyfeiriwyd at yr heriau sy’n cael eu wynebu gan ysgolion i’r dyfodol oedd yn profi pwysau ariannol cynyddol.

Cadarnhawyd y byddai'r Rheolwr Cyllid Ysgolion yn ymweld ag ysgolion sy'n cael anawsterau i ddarparu cymorth a chyngor, ac y byddai'r cymorth a'r help o'r clwstwr yn cynorthwyo i fynd i'r afael â phroblemau. Eglurodd Mr P. Whitham y nodwyd na fu Ysgol Mair, y Rhyl, yn rhan o Glwstwr y Rhyl.

Mewn ymateb i bryder a godwyd gan y Cynghorydd S.A. Davies ynghylch y newidiadau mewn amcanestyniadau, darparodd y Rheolwr Cyllid Ysgolion gadarnhad y gallai prosiectau newid ar fyr rybudd am sawl rheswm ac amlygodd yr anawsterau a wynebir o ran rhagweld a mynd i'r afael â'r amcanestyniadau. Yn ogystal, awgrymodd y Cynghorydd Davies y gellid cysylltu â'r Esgobaeth gyda gylwg ar geisio cynnydd yn lefel y gefnogaeth a'r cymorth ariannol ar gyfer eu hysgolion priodol.

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol: Cymunedau at y Darpariaethau Statudol yr oedd yn ofynnol i ysgolion eu cyflawni oedd yn cyfrannu at yr anawsterau a wynebir wrth ragweld amcanestyniadau, gyda chyfeiriad arbennig at y cymarebau athro i ddisgybl, materion iechyd a diogelwch a ffigurau derbyn.

Rhoddodd y Prif Gyfrifydd wybod i'r Aelodau bod ffigurau mewn perthynas â demograffi wedi eu hymgorffori yn y broses, a darparodd fanylion goblygiadau effaith Cronfa Bensiwn yr Athrawon ar y gyllideb ysgolion.

Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y Cynghorydd P.C. Duffy ynghylch lefel y gefnogaeth a ddarperir i Ysgol Mair, eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau y gwahoddwyd y swyddogion i fynychu'r cyfarfod blaenorol gan y gellid fod wedi darparu rhagolwg manylach o'r amgylchiadau. Cadarnhaodd bod cymorth a chefnogaeth, a ddarperir gan dîm rhagweithiol ac ymroddedig iawn, ar gael i bob ysgol, ac na dderbyniwyd unrhyw gwynion ynghylch lefel neu ansawdd y gefnogaeth a'r cymorth a ddarparwyd. Cefnogodd yr Aelodau'r farn a fynegwyd gan y Cadeirydd sef, yn achos bod unrhyw achosion tebyg yn cael eu cyflwyno gerbron y Pwyllgor am ystyriaeth, byddai'r swyddogion priodol yn cael eu gwahodd i fynychu. Cadarnhaodd y Rheolwr Cynllunio ac Adnoddau Addysg bod cefnogaeth a chymorth ar gael i Ysgol Mair, a rhoddodd fanylion y materion a'r problemau a brofwyd yn yr ysgol.

Mewn ymateb i gwestiynau gan Aelodau ynghylch y mecanweithiau a roddwyd ar waith i wella'r broses amcanestyniadau, eglurodd y Prif Gyfrifydd, er mai'r cynnig oedd i anrhydeddu amddiffyniad ar gyfer Cyllidebau Dirprwyedig Ysgolion, rhagwelwyd y gallai nifer yr ysgolion oedd yn profi anawsterau gynyddu oherwydd pwysau chwyddiant a'r gostyngiad ym malansau ysgolion dros flynyddoedd diweddar, sydd wedi lleihau'r lefel o hyblygrwydd.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai adroddiad cynnydd o ran Ysgol Mair yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor ym mis Medi 2016, a chytunwyd y byddai'r swyddogion priodol yn cael eu gwahodd i fod yn bresennol.

***PENDERFYNWYD*** *– bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cytuno:-*

*(a) bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn a'i nodi.*
*(b) i wahodd swyddogion i fynychu cyfarfod y Pwyllgor ym mis Medi 2016 i ystyried yr adroddiad cynnydd mewn perthynas ag Ysgol Mair, y Rhyl ac*
*(c) yn achos cyflwyno unrhyw achosion tebyg gerbron y Pwyllgor ar gyfer eu hystyried, y byddai'r swyddogion priodol yn cael eu gwahodd i fod yn bresennol.*
***(IL, CJ, IB i Weithredu)***

## 12 POLISI RHANNU PRYDERON

Roedd adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaethau Adnoddau Dynol, ar y Polisi Rhannu Pryderon oedd wedi ei ddiwygio, ei ddiweddaru a'i adolygu yn unol â deddfwriaeth, wedi ei gylchredeg ymlaen llaw.

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd yr adroddiad oedd yn ceisio cael cytundeb y Pwyllgor i argymell y polisi hwn i'r Cyngor i'w fabwysiadu. Roedd y Polisi'n rhoi sicrwydd i staff y gallant godi materion o bryder heb ofni eu cosbi, ac roedd yn darparu system rhybudd buan a allai ganfod problem bosibl.

Roedd y polisi wedi cael ei ddiweddaru a'i ailfformatio i gynnwys rolau a chyfrifoldebau cliriach a'r newidiadau deddfwriaethol. Daeth y Ddeddf Menter a Diwygio Rheoleiddio (2013) â nifer o newidiadau fyddai'n effeithio ar rannu pryderon. Roedd y tri newid allweddol yn cynnwys:-

i) Dim ond datgeliadau a wnaed 'er budd y cyhoedd' sy'n cael eu gwarchod. Erbyn hyn mae'n rhaid i weithwyr ddangos eu bod 'yn rhesymol gredu' bod y datgeliad maent yn ei wneud 'er lles y cyhoedd'.
ii) Cael gwared ar y gofyniad i ddatgeliadau gael eu gwneud yn 'ddidwyll' er mwyn eu diogelu.
iii) Gwneud cyflogwyr yn atebol am weithredoedd y gweithwyr (megis aflonyddu ar gydweithwyr sydd wedi codi pryder) a gwneud gweithwyr yn atebol yn bersonol. Roedd copi o'r Adroddiad wedi ei gynnwys fel Atodiad 1 i'r adroddiad.

Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod y polisïau i gyd wedi bod i'r Cyd Gyfarfod Corfforaethol am sylwadau ac i'r CGC am adborth. Cadarnhawyd nad oedd risgiau ond yn gysylltiedig â pheidio â gweithredu'r Polisi. Mae'r fersiynau presennol o'r Polisi wedi dyddio'n fawr iawn o ran deddfwriaeth a rhaid i ni sicrhau bod y Polisi'n cael ei weithredu'n gywir ac yn gyson.

Cyfeiriodd Mr P. Whitham at Dudalen 111 ac awgrymodd y dylai'r geiriau "o fewn" yn y frawddeg "rhywbeth o'i le o fewn y Cyngor" gael eu haileirio gan y gallai mater fod ynghylch y Cyngor neu y gellid ei adnabod gan rywun, fel contractwr, nad yw'n cael ei gyflogi'n uniongyrchol gan y Cyngor. Cadarnhawyd y byddai'r Polisi'n berthnasol i'r holl aelodau staff, ac y gellid ei fabwysiadu gan ysgolion pe dymunent wneud hynny.

Mewn ymateb i fater a amlygwyd gan gynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch yr anawsterau posibl y gellid eu canfod mewn perthynas â chyfrinachedd, darparodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd amllinelliad o lefel y manylion y gellid eu darparu mewn perthynas â datgelu

gwybodaeth. Mewn ymateb i ymholiad gan y Cadeirydd ynghylch elfen lles y cyhoedd o'r Ddeddf, eglurodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd bod y Polisi'n nodi'n fanwl sut y byddai'r elfen amddiffyn yn cael ei gweithredu o ran datgeliadau.

***PENDERFYNWYD*** *– bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn argymell i'r Cyngor gymeradwyo'r polisi uchod.*
***(GW, AM i Weithredu)***

**13 CYNLLUN ARCHWILIO 2016 - CYNGOR SIR DDINBYCH**

Roedd adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid wedi ei gylchredeg ymlaen llaw, ynghyd â chopi o lythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i Brif Weithredwr y Cyngor Sir.

Cyflwynodd cynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru (AV a GB) yr adroddiad oedd yn ymgorffori 'Cynllun Archwilio 2016 - Cyngor Sir Ddinbych'. Roedd yr adroddiad yn egluro'r rhaglen waith sydd wedi ei chynllunio ar gyfer dwy raglen archwilio perfformiad ac archwilio ariannol Swyddfa Archwilio Cymru, ac yn rhoi manylion y ffi ar gyfer y gwaith, manylion o safbwynt y tîm archwilio a'r amserlen ar gyfer y gwaith. Byddai'n ofynnol i'r archwilwyr allanol baratoi a chyflwyno'r adroddiad hwn er mwyn cyflawni eu gofynion o dan safonau archwilio ac arferion archwilio priodol.

Roedd yr adroddiad yn rhoi amlinelliad i'r Cyngor o raglen waith yr archwiliad ariannol a'r archwiliad o berfformiad. Roedd y rhaglen archwilio ariannol yn ymwneud â'u gwaith o safbwynt datganiadau ariannol 2015-16. Roedd hefyd yn darparu gwybodaeth am y dull archwilio, gan gynnwys y risgiau archwilio allweddol sydd wedi eu nodi yn ystod y broses gynllunio gychwynnol a'r camau bwriedig i fynd i'r afael â hwy. Byddai'r gwaith archwilio ariannol ar y meysydd risg hyn yn cael ei ddefnyddio i lywio barn archwilio ar y datganiadau ariannol.

Roedd y rhaglen waith archwiliad o berfformiad yn ymwneud â'u gwaith o safbwynt y Mesur Llywodraeth Leol. Roedd y gwaith archwilio ariannol a pherfformiad hefyd yn adolygu'r trefniadau a roddwyd ar waith gan y Cyngor i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau.

Darparwyd crynodeb o gynnwys Cynllun Archwilio 2016 – Cyngor Sir Ddinbych, oedd yn cynnwys:-

- Archwiliad Ariannol.
- Ardystio hawliadau a ffurflenni grant.
- Gwaith arall a gyflawnir.
- Archwilio perfformiad.
- Y ffi, y tîm archwilio a'r amserlen.
- Yr amserlen.
- Datblygiadau o ran y gwaith archwilio yn y dyfodol.

Atodiad 1:- Prif gyfrifoldebau.
Atodiad 2:- Gwaith perfformiad sydd yn dal ar y gweill o amlinelliad archwilio'r llynedd.

Atodiad 3:- Astudiaethau gwerth am arian cenedlaethol.

Darparwyd crynodeb o'r llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru, rhaglen astudiaethau Llywodraeth Lleol a rhaglen archwilio perfformiad 2016/17, ar gyfer y Pwyllgor. Eglurwyd, o ganlyniad i ymgynghori, roedd y cynllunio o ran yr archwiliad mewn perthynas â'r agwedd berfformiad wedi bod yn amwys. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau bod y llythyr yn nodi'n fanwl y cynlluniau ar gyfer y flwyddyn i ddod, gyda chyfeiriad arbennig at y tair astudiaeth llywodraeth leol oedd wedi eu gwneud ar draws Cymru, ynghyd â'r newid ymagwedd tuag at y gwaith a gyflawnwyd mewn Cynghorau o ganlyniad i dynnu swm sylweddol o'r cyllid grant WPI yn ôl.

Darparwyd manylion y rhaglen waith arfaethedig ar gyfer y flwyddyn i ddod a thynnwyd sylw at y pwyntiau mwyaf amlwg a ganlyn o fewn y llythyr:-

- Manylion yr astudiaethau arfaethedig.
- Y tri adolygiad thematig oedd yn cynnwys Gwydnwch Ariannol, Llywodraethu a Thrawsnewid.
- Gwaith mewn perthynas â chynnal Asesiad Corfforaethol ar sail ymagwedd risg fel rhan o'r Adolygiad Llywodraethu.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd S.A. Davies, amlinellodd cynrychiolydd Swyddfa Archwilio Cymru (GB) y byddai'r ymagwedd wahanol oedd i'w mabwysiadu gyda chyflwyno tri adroddiad ar wahân wedi codi o ganlyniad i gynnig LIC i ddiddymu'r Mesur Llywodraeth Leol oedd yn gorfodi cyfyngiadau penodol.

Yn ystod y drafodaeth ddilynol, diolchodd y Cadeirydd i gynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru am yr adroddiad, a:-

***PENDERFYNWYD*** *– bod y Pwyllgor yn derbyn ac yn nodi cynnwys adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru.*

## 14 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Roedd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (a gylchredwyd yn flaenorol) wedi ei chyflwyno ar gyfer ei hystyried.

Cadarnhaodd y Pwyllgor Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, yn amodol ar gynnwys yr adroddiadau a ganlyn:-

27ain Ebrill, 2016:-.

- Dylid newid yr "Amlinelliad o Gyfrifon Archwilio Ariannol Blynyddol a Hysbysiad o Ardystiad o Gyfrifon" i'r "Archwiliad Ardystio Grant".
- Dylai'r "Adroddiad Gwelliant Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru – Y Wybodaeth Ddiweddaraf 2015/16" fod yn adroddiad terfynol ac nid yn ddiweddariad.

15fed Mehefin, 2016:-

- Dylai Adroddiad Hunanwerthuso'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol gael ei gynnwys yn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer Mehefin 2016.

13eg Gorffennaf, 2016:-

- Dylid cynnwys yr Adroddiad Blynyddol ar Rannu Pryderon yn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ar gyfer Gorffennaf 2016.
- Aildrefnu "Adroddiad Gwella Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru – Y Wybodaeth Ddiweddaraf 2015/16" ar gyfer Ebrill 2016.

***PENDERFYNWYD** – yn amodol ar yr uchod, bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.*

***(CIW i Weithredu)***

Daeth y cyfarfod i ben am 13.20 p.m.